



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Adroddiad Annhegwch yr Is-adran Sgrinio 2020-21

Awdur: Bethan Bowden,

Darparwyd y data gan Guy Stevens a Thîm Gwybodeg ICC

Dyddiad: Mehefin 2022

Fersiwn: F1

Dosbarthiad:

- Uwch Dîm Rheoli'r Is-adran Sgrinio
- Tîm Arweinyddiaeth Cyfarwyddiaeth Diogelu Iechyd a Gwasanaethau Sgrinio
- Grŵp Annhegwch Sgrinio gyda phartneriaid Timau Iechyd Cyhoeddus Lleol
- Cyhoeddi'r ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru

Diben y Ddogfen a Chrynodeb Ohoni:

Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r wybodaeth am annhegwch o ran y niferoedd sy'n manteisio ar brofion sgrinio ar gyfer pedair rhaglen sgrinio i oedolion a ddarperir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer y flwyddyn o Ebrill 2020 hyd at ddiwedd Mawrth 2021.

Manylion Cyhoeddi:

Teitl: Adroddiad Annhegwch yr Is-adran Sgrinio 2020-21, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Dyddiad: Mehefin 2022

ISBN: 978-1-83766-020-9

Am ragor o wybodaeth am yr adroddiad hwn cysylltwch â:

Sikha de Souza, Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd

Is-adran Sgrinio, Llawr 4, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Rhif 2 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ

E-bost: screening.feedback@wales.nhs.uk

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg heb oedi /We welcome correspondence and phone calls in Welsh. We will respond to correspondence in Welsh without delay.

Datganiad Sicrhau Ansawdd

Mae cofnodion data sgrinio yn cael eu diweddaru'n barhaus. Mae'r cronfeydd data a ddefnyddir gan Is-adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael eu diweddaru'n ddyddiol pan fydd cofnodion yn cael eu hychwanegu, eu newid neu eu dileu (archifo). Gallai hyn ddigwydd pan nodwyd bod angen apwyntiad sgrinio ar rywun; pan fydd angen cofnodi canlyniadau sgrinio neu os bydd newid mewn statws ac nad oes angen eu sgrinio mwyach. Derbynnir data gan nifer fawr o wahanol ffynonellau ac maent yn amrywio o ran cywirdeb a chyflawnrwydd. Mae'r Is-adran Sgrinio yn gwirio cywirdeb data drwy gymharu cronfeydd data - er enghraifft data practisau meddygon teulu - ac yn cywiro'r data codio lle bynnag y bo'n bosibl. Dylid nodi bod oedi weithiau wrth gasglu data - er enghraifft efallai na fydd unigolyn yn cofrestru ar unwaith gyda'u meddyg teulu os ydynt yn newid cyfeiriad. Felly, bydd yr oedi hwn yn effeithio ar gyflawnrwydd y data, yn dibynnu ar amgylchiadau unigol. Dylai'r darllenwr fod yn ymwybodol hefyd bod data yn cael eu diweddaru'n barhaus ac efallai y bydd ailaddasiadau bach iawn i'r niferoedd a nodir yn y ddogfen hon o flwyddyn i flwyddyn, o ganlyniad i ddiweddaru'r data. Weithiau byddwn yn atal niferoedd is na phump pan fydd posibilrwydd y gallai'r data fod yn sensitif.

© 2022 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Gellir atgynhyrchu'r deunydd yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL)

www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hawlfraint o ran y trefniant teipograffyddol, y dyluniad a'r diwyg yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

1. Cyflwyniad

Ein nod ym mhob un o'r rhaglenni sgrinio cenedlaethol yng Nghymru yw bod gan bawb sy'n gymwys i gael eu sgrinio fynediad a chyfle cyfartal i fanteisio ar brofion sgrinio gan ddefnyddio gwybodaeth ddibynadwy i wneud dewis personol gwybodus. Mae sgrinio yn achub bywydau, yn lleihau cymhlethdodau ac yn galluogi dewis drwy ganfod a thrin cyflyrau iechyd yn gynnar. Fodd bynnag, nid yw niferoedd cyfartal o bobl ar draws grwpiau'r boblogaeth yn manteisio ar raglenni sgrinio ac mae hynny'n arwain at wahaniaethau mewn canlyniadau ac annhegwch iechyd. Mae mynd i'r afael â'r annhegwch o ran y nifer sy'n cael eu sgrinio yn y rhaglenni cenedlaethol yn amcan allweddol i Is-adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Fel rhan o'n Strategaeth Sgrinio Teg, rydym wedi gwneud ymrwymiad i archwilio pa ddata y gallwn eu dadansoddi er mwyn deall y patrymau o ran y rhai sy'n manteisio ar brofion sgrinio ledled Cymru a nodi grwpiau neu gymunedau â niferoedd isel sy'n cael eu sgrinio er mwyn cyflwyno camau gweithredu ac ymyriadau wedi'u targedu. Mae data ar annhegwch o ran y nifer sy'n manteisio ar brofion sgrinio wedi'i gyflwyno'n flaenorol mewn gwahanol adroddiadau a gynhyrchwyd gan raglenni sgrinio unigol. Yr adroddiad annhegwch hwn yw'r tro cyntaf i ddata o wahanol raglenni gael eu cyflwyno gyda'i gilydd mewn adroddiad sy'n canolbwyntio'n benodol ar annhegwch o ran nifer y bobl sy'n cael eu sgrinio ar draws yr isadran.

Fel rhan o rwydwaith sgrinio gyda phartneriaid ar draws Byrddau Iechyd Lleol, Llywodraeth Leol a'r Trydydd Sector, mae'n hollbwysig ein bod yn rhannu'r data hyn mewn dull amserol er mwyn llywio camau gweithredu dan arweiniad y gymuned. Rydym wedi ymrwymo i gyflwyno'r data hyn yn rheolaidd mewn adroddiad blynyddol mor agos â phosibl at y pwynt dadansoddi. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno data ar y rhai a wahoddwyd i gael eu sgrinio o fis Ebrill 2020 i fis Mawrth 2021. Gan ganiatáu chwe mis i gyfranogwyr fanteisio ar eu gwahoddiad i gael eu sgrinio, mae hyn yn adlewyrchu'r nifer sy'n manteisio ar brofion sgrinio fel yr oedd hi ym mis Hydref 2021.

Effeithiodd y pandemig Covid-19 yn sylweddol ar y gweithgarwch sgrinio yn 2020/21 a chafodd rhaglenni sgrinio eu hatal o fis Mawrth 2020 ac yna eu hailgyflwyno'n raddol o fis Mehefin 2020. Mae hyn wedi arwain at lai o weithgarwch sgrinio ar draws yr holl raglenni sgrinio cenedlaethol i oedolion gyda gostyngiad sylweddol yn y nifer a fanteisiodd ar brofion sgrinio'r rhaglen Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru. Wrth archwilio data yn ôl ffactorau demograffig, roedd y niferoedd bach o fewn is-grwpiau yn annibynadwy ac felly ar gyfer y flwyddyn hon, nid yw'r data ar gyfer Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru wedi'i gyflwyno. Cyflwynir data ar gyfer gweddill y rhaglenni sgrinio i oedolion gan ddefnyddio'r nifer a gafodd eu sgrinio er mwyn dangos y gyfran o gyfranogwyr a wahoddwyd ac a fanteisiodd ar brawf sgrinio, neu gwmpas, sy'n adlewyrchu'r gyfran o'r boblogaeth sy'n gymwys i gael eu sgrinio ac sydd wedi cael eu sgrinio o fewn yr amserlen briodol ar gyfer y rhaglen sgrinio dan sylw.

Ar gyfer 2020/21 mae data annhegwch yn canolbwyntio ar y penderfynnyddion a'r ffactorau demograffig sy'n cael eu casglu yn awr yn ein prosesau casglu data arferol. Wrth i'n dulliau casglu data a'n dealltwriaeth o annhegwch ddatblygu, rydym yn awyddus i ehangu'r ystod o ffactorau sy'n cael eu harchwilio yn yr adroddiad hwn. Fel dogfen sy'n esblygu, rydym yn croesawu adborth ar y cynnwys a'r cynllun er mwyn bod yn sail i fersiynau yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad hwn yn ategu'r Strategaeth Cydraddoldeb Sgrinio lle mae manylion pellach ar gael am ein hymrwymadau i weithredu i leihau annhegwch yn yr Is-adran.

2. Cefndir

Nod sgrinio yw canfod clefyd yn ei gamau cynnar neu atal clefyd rhag digwydd. Drwy nodi pobl â siawns uwch o gael cyflwr iechyd gellir cynnig opsiynau triniaeth mwy effeithiol, neu ddarparu gwybodaeth er mwyn bod yn sail i benderfyniadau ynghylch eu gofal yn y dyfodol¹. Hefyd, gall sgrinio leihau'r posibilrwydd o ddatblygu cyflwr difrifol, ac atal y salwch a'r niwed a fyddai'n

digwydd fel arall. Mae'r Is-adran Sgrinio yn darparu'r saith rhaglen sgrinio genedlaethol yng Nghymru:

1. Bron Brawf Cymru
2. Sgrinio Coluddion Cymru
3. Sgrinio Serfigol Cymru
4. Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru
5. Sgrinio Clyw Babanod Cymru
6. Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru
7. Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru

Mae'r Is-adran Sgrinio yn cydlynu a rheoli rhwydwaith clinigol Sgrinio Cyn Geni Cymru ble y caiff y profion sgrinio eu cynnal gan Fyrddau Iechyd Cymru fel rhan o ofal cyn geni arferol yn ystod beichiogrwydd.

Mae gan bob un o'r rhaglenni garfan wahanol o boblogaeth gymwys sy'n cael eu gwahodd i gael eu sgrinio ar wahanol gyfnodau (tabl 1).

Tabl 1: Carfannau'r Boblogaeth a Wahoddir gan Raglenni Sgrinio Cenedlaethol yng Nghymru

Rhaglen	Poblogaeth	Cyfnod Sgrinio
Sgrinio Cyn Geni Cymru	Menywod beichiog	Fel rhan o ofal cyn geni arferol
Bron Brawf Cymru	Menywod â phobl â bronnau sy'n 50-70 oed	Pob 3 blynedd
Sgrinio Coluddion Cymru	Pobl 58*-74 oed	Pob 2 flynedd
Sgrinio Serfigol Cymru	Menywod a phobl â serfics sy'n 25-64 oed	Pob 3** blynedd 25-49 oed Pob 5 mlynedd 50-64 oed
Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru	Babanod newydd-anedig tua 5 diwrnod oed	Un prawf sgrinio
Sgrinio Clyw Babanod Cymru	Babanod newydd-anedig o fewn yr ychydig wythnosau cyntaf o fywyd	Un prawf sgrinio
Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru	Pobl â diabetes sy'n 12 oed a hŷn	Pob blwyddyn
Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru	Dynion 65 oed	Un prawf sgrinio

*optimeiddio sgrinio'r coluddion hyd at 58 oed yn 2022 **lleihau i 5 mlynedd o 2022

Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaethau sgrinio yn casglu gwybodaeth sydd wedi'i chofnodi mewn cofrestrau Practisau Cyffredinol er mwyn gwahodd cyfranogwyr cymwys. Mae hyn yn golygu ein bod yn cadw data er mwyn gallu archwilio annhegwch o ran y nifer sy'n manteisio ar brofion sgrinio yn ôl **oedran** (am ein bod yn casglu dyddiad geni), **rhywedd**, a **lleoliad daearyddol** (am ein bod yn gwybod cyfeiriadau cartref a lleoliad practisau meddygon teulu hefyd). Gallwn ddefnyddio cyfeiriad i ganfod mesur o **amddifadedd** ar sail ardal, gan ddefnyddio sgoriau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs). Ar gyfer yr adroddiad hwn, mae LSOAs yn cael eu dyrannu yn gwintellau yn seiliedig ar sgôr amddifadedd cyffredinol MALIC, i ddarparu arwydd o statws amddifadedd yr LSOA y mae'r person yn byw ynddi. Yn yr adroddiad hwn, mae Cwintel 1 yn cyfeirio at y rhai sy'n byw yn y pumed â'r amddifadedd lleiaf o LSOAs yng Nghymru ac mae Cwintel 5 yn cyfeirio at y rhai a oedd yn byw yn y pumed â'r amddifadedd mwyaf o'r LSOAs yng Nghymru.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar annhegwch yn y rhaglenni sgrinio oedolion yng Nghymru ar gyfer 2020/21: Sgrinio Coluddion Cymru; Bron Brawf Cymru; Sgrinio Serfigol Cymru a Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru. Oherwydd effaith y pandemig Covid-19 mae gweithgarwch sgrinio wedi lleihau'n sylweddol yn 2020/21 o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Cafodd yr holl raglenni sgrinio oedolion eu hatal o 19 Mawrth 2020 ac ailgyflwynwyd y rhaglenni'n raddol gan ddechrau ym mis Mehefin 2020 ar gyfer Sgrinio Serfigol Cymru, yna Sgrinio Coluddion Cymru ym mis Gorffennaf 2020, Bron Brawf Cymru a Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru ym mis Awst 2020 a Sgrinio Llygaid Diabetig ym mis Medi 2020. Yn dilyn y seibiant dros dro pan na allai cyfranogwyr gael eu sgrinio cafwyd cyfnod o gapasiti is i wahodd cyfranogwyr i'w sgrinio wrth i'r gwasanaethau ailgychwyn. Mae hyn wedi arwain at lai o weithgarwch sgrinio ar draws yr holl raglenni sgrinio oedolion ond roedd yn fwyaf amlwg yn Bron Brawf Cymru a Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol sy'n galw am fynychu lleoliad neu safle sgrinio symudol penodedig.

3. Crynodeb o'r prif bwyntiau

- Yn 2020/21, mae graddiant cymdeithasol o ran nifer y bobl sy'n manteisio ar raglenni sgrinio ar draws yr holl raglenni sgrinio oedolion. Roedd pobl sy'n byw yn y **cymunedau â'r amddifadedd mwyaf** yng Nghymru yn **llai tebygol o fanteisio ar brofion sgrinio** o gymharu â'r rhai a oedd yn byw yn y cymunedau â'r amddifadedd lleiaf.
- Ar gyfer rhaglenni sy'n gwahodd pobl ar draws grwpiau oedran mae annhegwch o ran y nifer sy'n manteisio ar y cynnig i gael eu sgrinio gyda **phobl yn y grwpiau oedran iau yn llai tebygol o fanteisio ar brofion sgrinio** o gymharu â phobl mewn grwpiau oedran hŷn.
- Ar gyfer rhaglenni sy'n gwahodd pobl o bob rhyw i gymryd rhan mewn profion sgrinio mae annhegwch o ran y nifer sy'n manteisio ar y cynnig gyda **dynion yn llai tebygol o fanteisio ar brofion sgrinio o gymharu â menywod** er bod y bwlch annhegwch yn fach.
- Ar gyfer rhaglenni lle y gwahoddir pobl fwy nag unwaith, **mae pobl sydd wedi mynychu o'r blaen yn fwy tebygol o ymateb** i wahoddiadau dilynol.
- Lleihawyd y gweithgarwch sgrinio ym mhob rhaglen yn 2020/21 o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol oherwydd effaith y pandemig Covid-19 ac ailgychwynnodd y rhaglenni sgrinio yn raddol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn fwyaf amlwg yn Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru a Bron Brawf Cymru ac felly dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r data.
- Mae angen **archwilio ymhellach i ffactorau eraill**, y gwyddom eu bod yn effeithio ar y nifer sy'n manteisio ar brofion sgrinio, er enghraifft ethnigrwydd er mwyn ehangu dealltwriaeth o annhegwch sgrinio y tu hwnt i'n dulliau casglu data arferol. Dylai hyn gynnwys rhaglenni sgrinio cyn geni a babanod newydd-anedig yn ogystal â'r rhaglenni ar gyfer oedolion a phobl ifanc a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

- Mae angen **archwilio ymhellach i annhegwch ar draws y llwybr sgrinio cyfan** er mwyn cael effaith ar wella canlyniadau iechyd i bob grŵp a chymuned yng Nghymru.

4. Y Nifer sy'n Manteisio ar brofion sgrinio/Cwmpas rhaglenni sgrinio yn ôl ardal ddaearyddol

Darperir y gwasanaethau sgrinio fel rhaglenni Cymru gyfan ar draws ardaloedd daearyddol y saith Bwrdd Iechyd. Darperir y rhaglenni sgrinio gan ddefnyddio modelau mynediad gwahanol gan gynnwys sgrinio yn y cartref, darpariaeth gofal sylfaenol a lleoliadau sgrinio mewn canolfannau gofal iechyd a chlinigau symudol. Er mwyn canfod a yw nifer cyfartal o bobl yn manteisio ar y gwahoddiadau sgrinio ledled Cymru, mae nifer y bobl sy'n manteisio ar brofion sgrinio/cwmpas rhaglenni sgrinio wedi'i archwilio yn ôl lleoliad daearyddol cyfranogwyr cymwys. Diffinnir lleoliad daearyddol gan ddefnyddio cyfeiriad cartref y cyfranogwr a wahoddir sydd wedyn yn cael ei ddyrannu i Fwrdd Iechyd ac Awdurdod Lleol.

4.1 Sgrinio Coluddion Cymru

Nod Sgrinio Coluddion Cymru yw lleihau nifer y bobl sy'n marw o ganser y coluddyn yng Nghymru drwy ganfod canser yn gynnar pan fydd triniaeth yn fwy tebygol o lwyddo a thrwy gael gwared ar dyfiannau cyn-ganseraidd. Gwahoddir pobl 60 i 74 oed i gymryd rhan yn y rhaglen bob dwy flynedd, ac o 2022 bydd hyn yn cael ei ehangu i wahodd pobl 58 oed.

Ar ôl i'r rhaglenni sgrinio gael eu hatal dros dro ym mis Mawrth 2020, gwahoddwyd cyfranogwyr y rhaglen sgrinio'r coluddion fel rhan o broses ailddechrau raddol o ddiwedd Gorffennaf 2020. O fis Awst 2020 i fis Mawrth 2021, **gwahoddwyd cyfanswm o 223,667 o bobl** i gymryd rhan yn y rhaglen sgrinio'r coluddion gyda **150,161 yn derbyn y cynnig** o brawf sgrinio. Mae hyn yn cymharu â 276,226 o gyfranogwyr a wahoddwyd i brawf sgrinio'r coluddion o fis Ebrill 2019 i fis Mawrth 2020 gyda 188,105 o ganlyniadau profion sgrinio awdurdodedig.

Adroddir ar y nifer sy'n manteisio ar brofion sgrinio'r coluddion fel y gyfran o gyfranogwyr a wahoddwyd a gafodd eu sgrinio o fewn chwe mis i gael eu gwahodd, sy'n golygu mai'r data hyn yw'r diweddaraf sydd ar gael ym mis Hydref 2021. Y safon ofynnol ar gyfer y nifer sy'n manteisio ar wahoddiadau ar draws y rhaglen yw 60%. Ar draws Cymru **yn 2020/21, y nifer a fanteisiodd ar brofion sgrinio oedd 67.1%**, sef cynnydd o gymharu â'r nifer ar gyfer Cymru gyfan yn 2019/20 o 61.5% ac yn 2018/19 o 57.3%.


Prin yw'r amrywiaeth daearyddol yn y nifer sy'n manteisio ar raglenni sgrinio ledled Cymru ar lefel Bwrdd Iechyd gyda'r nifer yn amrywio o 66.1% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i 68.3% ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys (tabl 2).

Tabl 2: Y nifer a fanteisiodd ar brofion (%) sgrinio coluddion yn ôl yr ardal Bwrdd Iechyd y maen nhw'n byw ynddi, 2020/21

Bwrdd Iechyd	Gwahoddwyd (n)	Sgriniwyd	Y nifer a fanteisiodd (%)
BIP Aneurin Bevan	40408	27495	68.0
BIP Betsi Cadwaladr	51877	34576	66.6
BIP Caerdydd a'r Fro	28471	19023	66.8
BIP Cwm Taf Morgannwg	29832	19891	66.7
BIP Hywel Dda	30892	20954	67.8
BI Addysgu Powys	11513	7862	68.3
BIP Bae Abertawe	26369	17423	66.1
Cymru Gyfan	223667	150161	67.1

Fodd bynnag, nodir yr amrywiaeth daearyddol mwyaf yn ôl ardal Awdurdod Lleol, yn amrywio o 62.6% yn Awdurdod Lleol (ALI) Merthyr Tudful i 72.9% yn ALI Sir Fynwy (ffigur 1).

Ffigur 1: Y nifer a fanteisiodd ar brofion (%) sgrinio'r coluddion yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd y maen nhw'n byw ynddi, 2020/21



4.2 Bron Brawf Cymru

Nod Bron Brawf Cymru, sef y rhaglen sgrinio genedlaethol ar gyfer canser y fron, yw ceisio lleihau nifer y marwolaethau o ganser y fron drwy wahodd menywod 50 i 70 oed i gael mamogram bob tair blynedd. Gall menywod 70 oed a hŷn gyfeirio eu hunain at y rhaglen sgrinio. Mae Bron Brawf Cymru wedi'i rhannu'n dair is-adran ddaearyddol gyda chanolfannau yng Nghaerdydd, Abertawe, Llandudno a Wrecsam. Mae un ar ddeg uned symudol yn gweithredu ar draws Cymru i ddarparu gwasanaeth sgrinio lleol i fenywod sy'n byw gryn bellter oddi wrth ganolfan, gan ymweld â 100 o safleoedd a mwy ym mhob rownd sgrinio tair blynedd.

Ar ôl atal rhaglenni sgrinio dros dro ym mis Mawrth 2020, ailddechreuodd y gwasanaeth sgrinio'r fron yn raddol o fis Awst 2020 i fis Mawrth 2021. **Gwahoddwyd cyfanswm o 63,854 o bobl** i gymryd rhan yn y rhaglen sgrinio'r fron gyda **42,826 o bobl yn derbyn y cynnig** o brawf sgrinio. Mae hyn yn cymharu â mwy na 145,428 o bobl a wahoddwyd yn ystod 2018/19 gyda 114,968 o bobl yn cael eu sgrinio.

Adroddir ar brofion sgrinio'r fron fel y gyfran o gyfranogwyr a wahoddwyd a gafodd eu sgrinio o fewn chwe mis i dderbyn eu gwahoddiad, sy'n golygu mai'r data hyn yw'r diweddaraf sydd ar gael ym mis Hydref 2021. Yn 2020/21, **manteisiodd 67.1% ar brofion sgrinio ledled Cymru**, sy'n ostyngiad o gymharu â'r 69.1% a fanteisiodd ar brofion sgrinio yn 2018/19.

Mae amrywiaeth daearyddol yn y nifer sy'n manteisio ar brofion sgrinio ar draws Cymru ar lefel Bwrdd Iechyd. Roedd y ganran isaf ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys ar 23.5% ond dylid nodi mai dim ond nifer fach o fenywod a wahoddwyd oherwydd amseriad y rownd tair blynedd, felly dylid ystyried y ffigur hwn gyda gofal. Roedd y ganran uchaf a fanteisiodd ar brofion sgrinio yn BIP Cwm Taf Morgannwg, sef 76.0% (tabl 3).

Tabl 3: Y nifer a fanteisiodd ar brofion (%) sgrinio cancer y fron yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd y maen nhw'n byw ynddi, 2020/21

Bwrdd Iechyd	Gwahoddwyd (n)	Sgriniwyd (n)	Y nifer a fanteisiodd (%)
BIP Aneurin Bevan	10262	7255	70.7
BIP Betsi Cadwaladr	18624	12703	68.2
BIP Caerdydd a'r Fro	11989	8077	67.4
BIP Cwm Taf Morgannwg	4456	3387	76.0
BIP Hywel Dda	7801	4975	63.8
BI Addysgu Powys	102	24	23.5
BIP Bae Abertawe	9369	5565	59.4
Cymru Gyfan	63854	42826	67.1


Oherwydd y niferoedd isel iawn o gyfranogwyr mewn rhai ardaloedd Awdurdodau Lleol, ni chyflwynir data ar y lefel ddaearyddol hon.

Mae model darparu gwasanaeth Bron Brawf Cymru yn gwahodd cyfranogwyr yn seiliedig ar y feddygfa y maen nhw wedi cofrestru ynddi ar gylch tair blynedd. Ar ôl ailgychwyn y gwasanaethau sgrinio, rhoddwyd blaenoriaeth i'r cyfranogwyr a oedd wedi bod yn aros am y cyfnod hwyaf ac arweiniodd hynny at amrywiaeth daearyddol o ganlyniad i leoliad practisau meddygon teulu a

oedd wedi bod yn aros hwyaf. Gallai'r gostyngiad mewn gweithgarwch sgrinio'r fron yn 2020/21 arwain at amrywiaeth daearyddol ehangach na'r flwyddyn arferol cyn Covid. Er mwyn darparu ar gyfer hyn, archwiliwyd cwmpas cyffredinol sgrinio'r fron ar draws Cymru gyfan. Diffinnir cwmpas fel y gyfran o gyfranogwyr cymwys sydd wedi'u sgrinio o fewn y tair blynedd flaenorol.

Ar draws Cymru, **cwmpas y gwasanaeth sgrinio'r fron o fis Hydref 2021 yw 57.7%**, mae hyn yn cymharu â'r safon ofynnol o 70%. Mae amrywiaeth daearyddol yn y nifer sy'n manteisio ar brofion sgrinio ar draws ardaloedd Byrddau Iechyd yng Nghymru, gan amrywio o'r isaf, sef 43.6% yn BIP Cwm Taf Morgannwg i'r uchaf ar 62.8% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (ffigur 2).

Ffigur 2: Cwmpas (%) y gwasanaeth sgrinio'r fron yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd y maen nhw'n byw ynddi, 2020/21



4.3 Sgrinio Serfigol Cymru

Nod Sgrinio Serfigol Cymru yw lleihau nifer yr achosion o ganser serfigol ymledol ynghyd â'r afiachedd sy'n deillio ohono a'r niferoedd sy'n marw o'i herywdd. Gwahoddir menywod a phobl â serfics bob 3 blynedd o 25-49 oed, a bwriedir ehangu'r cyfnod sgrinio i bob 5 mlynedd ar gyfer pobl o bob oed o 2022 ymlaen. Ar hyn o bryd, gwahoddir menywod 50-64 bob 5 mlynedd.

Yn dilyn atal y rhaglenni sgrinio dros dro ym mis Mawrth 2020, gwahoddwyd cyfranogwyr am brawf sgrinio serfigol fel rhan o broses ailddechrau raddol o fis Mehefin 2020 i fis Mawrth 2021. Diffinnir cwmpas y gwasanaeth sgrinio serfigol ledled Cymru fel y gyfran o gyfranogwyr cymwys a gafodd brawf digonol o fewn y cyfnod amser priodol ar gyfer eu hoedran. O fis Hydref 2021, **y cwmpas ar draws Cymru yw 69.5%**. Mae hyn wedi gostwng o 73.2% yn 2019/20. Y safon ofynnol ar gyfer cwmpas y gwasanaeth yw 70%.


Roedd rhywfaint o amrywiaeth daearyddol o ran y cwmpas ledled Cymru ar lefel Bwrdd Iechyd. Roedd y cwmpas isaf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHDd) ar 67.7% a'r uchaf ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys ar 72.7% (tabl 4).

Tabl 4: Cwmpas (%) sgrinio serfigol yn ôl ardal y bwrdd iechyd y maen nhw'n byw ynddi, 2020/21

Bwrdd Iechyd	Cymwys (n)	Wedi'u profi (n)	Cwmpas (%)
BIP Aneurin Bevan	145497	102826	70.7
BIP Betsi Cadwaladr	162889	114868	70.5
BIP Caerdydd a'r Fro	125875	85541	68.0
BIP Cwm Taf			
Morgannwg	108003	74101	68.6
BIP Hywel Dda	88699	60021	67.7
BI Addysgu Powys	30234	21982	72.7
BIP Bae Abertawe	92960	63474	68.3
Cymru Gyfan	787407	547632	69.5%

Mae mwy o amrywiaeth yng nghwmpas y gwasanaeth sgrinio serfigol yn ôl ardal Awdurdod Lleol. Mae cwmpas y gwasanaeth sgrinio serfigol ar ei isaf yn ALI Merthyr Tudful gyda 65.7% yn manteisio ar brofion sgrinio, ac ar ei uchaf yn ALI Sir Fynwy ar 74.7% (ffigur 3).

Ffigur 3: Cwmpas (%) sgrinio serffigol yn ôl ardal yr Awdurdod Lleol y maen nhw'n byw ynddi, 2020/21



4.4 Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru (WAAASP)

Nod y Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru yn haneru nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig ag ymlediad aortig abdomenol (YAA) erbyn 2025 yn y boblogaeth gymwys. Gwahoddir dynion 65 oed a hŷn i fynychu un apwyntiad sgrinio uwchsain.

Yn dilyn atal y rhaglenni sgrinio dros dro ym mis Mawrth 2020, gwahoddwyd cyfranogwyr am brawf sgrinio YAA fel rhan o broses ailddechrau raddol o fis Awst 2020 i fis Mawrth 2021. **Gwahoddwyd cyfanswm o 4,209 o ddynion a manteisiodd 3,562 ar eu cynnig sgrinio.** Mae hyn yn cymharu â 17,045 o ddynion cymwys a wahoddwyd gan y rhaglen yn 2019/20 gyda 12256 yn mynychu eu sgan cyntaf ac yn cael canlyniad pendant.

Adroddir ar y nifer sy'n manteisio ar brofion sgrinio fel cyfran y cyfranogwyr cymwys a wahoddwyd ac a gafodd eu sgrinio o fewn chwe mis i dderbyn eu gwahoddiad, sy'n golygu mai'r data hyn yw'r diweddaraf sydd ar gael ym mis

Hydref 2021. Ar draws Cymru yn 2020/21 **y nifer a gafodd eu sgrinio ar gyfer YAA oedd 84.6%**. Mae hyn yn rhagori ar y safon ofynnol o 80%.


Ceir amrywiaeth daearyddol ar draws yr ardaloedd Bwrdd Iechyd yn amrywio o'r isaf yn BIP Bae Abertawe, sef 79.5%, i'r uchaf yn BIP Cwm Taf Morgannwg, sef 86.9% (tabl 5).

Tabl 5: Y nifer a fanteisiodd ar (%) brawf sgrinio YAA yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd y maen nhw'n byw ynddi, 2020/21

Bwrdd Iechyd	Gwahoddwyd (n)	Profwyd (n)	Y nifer a fanteisiodd (%)
BIP Aneurin Bevan	611	518	84.8
BIP Betsi Cadwaladr	1402	1201	85.7
BIP Caerdydd a'r Fro	239	198	82.8
BIP Cwm Taf Morgannwg	527	458	86.9
BIP Hywel Dda	551	463	84.0
BI Addysgu Powys	248	214	86.3
BIP Bae Abertawe	552	439	79.5
Cymru Gyfan	4209	3562	84.6

Mae amrywiaeth daearyddol yn y nifer sy'n manteisio ar brofion sgrinio YAA ar lefel Awdurdod Lleol, yn amrywio o'r nifer isaf yn ALI Abertawe, sef 77.6% i'r uchaf yn ALI Conwy, sef 90.2% (ffigur 4).


Ffigur 4: Y nifer a fanteisiodd ar brofion (%) sgrinio YAA yn ôl ardal yr Awdurdod Lleol y maen nhw'n byw ynddi, 2020/21



5. Y nifer a fanteisiodd ar brofion sgrinio yn ôl amddifadedd

Yn 2020/21, ar draws y pedair rhaglen sgrinio oedolion yng Nghymru, roedd pobl a oedd yn byw mewn **ardaloedd â mwy o amddifadedd yn llai tebygol o fanteisio ar brofion sgrinio/cwmpas rhaglenni sgrinio** o gymharu â phobl a oedd yn byw mewn ardaloedd â llai o amddifadedd. Mae yna raddiant cymdeithasol ble mae cysylltiad rhwng lefel uwch o amddifadedd a niferoedd is yn manteisio ar brofion/cwmpas (ffigur 5).

Ffigur 5: Y nifer a fanteisiodd ar brofion/cwmpas (%) rhaglenni sgrinio yn ôl cwintel amddifadedd, 2020/21



Roedd y bwlch annhegwch, sef y gwahaniaeth rhwng y nifer a fanteisiodd ar brofion sgrinio/cwmpas rhaglenni sgrinio yn y cymunedau â'r amddifadedd lleiaf o gymharu â'r cymunedau â'r amddifadedd mwyaf yn amrywio o 18.9% ar gyfer Bron Brawf Cymru, 14.5% ar gyfer Sgrinio Coluddion Cymru, 12.1% ar gyfer Sgrinio Serfigol Cymru gyda'r isaf yn 8.7% ar gyfer Rhaglen Sgrinio YAA yn 2020/21. O gymharu â 2018/19 mae'r bwlch annhegwch wedi lleihau ar gyfer y rhaglen Sgrinio Coluddion ac YAA ond mae wedi ehangu ar gyfer Sgrinio'r Fron a Sgrinio Serfigol (tabl 6).

Tabl 6: Y bwlch annhegwch rhwng y nifer a fanteisiodd ar brofion sgrinio/cwmpas rhaglenni sgrinio (%) yn ôl rhaglen, 2020/21

Rhaglen	2020/21	2018/19	Newid
Coluddion	14.5%	16.5%	-2.0%
Y fron	18.9%	15.9%	+3.0%
Serfigol	12.1%	11.5%	+0.6%
YAA	8.7%	12.8%	-4.1%


Mae mynd i'r afael â graddiant economaidd-gymdeithasol y nifer sy'n manteisio ar brofion sgrinio yn gam gweithredu allweddol er mwyn mynd i'r afael ag annhegwch iechyd. Os yw'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o niwed

iechyd o ganlyniad i gyflyrau y gellir sgrinio ar eu cyfer, gan gynnwys canser y coluddion a chanser ceg y groth, yn llai tebygol o fanteisio ar gynigion sgrinio, bydd hyn yn dwysáu annhegwch iechyd ymhellach.

5.1 Y nifer a fanteisiodd ar raglen Sgrinio Coluddion Cymru yn ôl amddifadedd

Ar draws Cymru yn 2020/21, roedd y niferoedd a fanteisiodd ar brofion sgrinio'r coluddion ar eu huchaf yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf, sef 73.4%, ac ar eu hisaf yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf, sef 58.9%. Gwelir y duedd hon ar draws pob ardal Bwrdd Iechyd yng Nghymru, gyda'r niferoedd a fanteisiodd ar brofion sgrinio'r coluddion ar eu huchaf yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf ac ar eu hisaf yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf. Roedd y bwlch annhegwch yn amrywio o 18.9% ar ei uchaf yn BIP Caerdydd a'r Fro i 11.8% ar ei siaf yn BIP Hywel Dda (ffigur 6).


Ffigur 6: Y nifer a fanteisiodd ar brofion (%) sgrinio'r coluddion yn ôl cwntel amddifadedd yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd y maen nhw'n byw ynddi, 2020/21



Mae yna raddiant cymdeithasol o ran y nifer sy'n manteisio ar brofion sgrinio coluddion ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru gyda'r niferoedd

uchaf yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf a'r niferoedd isaf yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf (ffigur 7).

Ffigur 7: Y nifer a fanteisiodd (%) ar brofion sgrinio'r coluddion yn y cwintelau â'r amddifadedd mwyaf a lleiaf yn ôl ardal yr Awdurdod Lleol y maen nhw'n byw ynddi, 2020/21




5.2 Y nifer a fanteisiodd ar brofion sgrinio Bron Brawf Cymru yn ôl amddifadedd

Ar draws Cymru yn 2020/21, roedd y niferoedd a oedd yn manteisio ar brofion sgrinio am ganser y fron ar eu hisaf yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf, sef 56.4%, a'r niferoedd uchaf yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf ar 75.3%. Mae'r duedd hon o gyfatebiaeth rhwng gostyngiad yn y nifer sy'n manteisio ar brofion sgrinio a lefelau uwch o amddifadedd yn amlwg yn BIP Aneurin Bevan, BIP Betsi Cadwaladr, BIP Caerdydd a'r Fro a BIP Bae Abertawe. Nid yw'r duedd yn ardaloedd y byrddua iechyd eraill yn llinol, ac mae cynnydd bach yn BIP Cwm Taf Morgannwg yn y nifer sy'n manteisio ar brofion sgrinio yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf, o gymharu â'r cymunedau â'r amddifadedd mwyaf ond un.

Yn BIP Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys nid oes patrwm clir i'w weld o ran y nifer sy'n manteisio ar brofion sgrinio ar draws y cwintelau amddifadedd. Fodd bynnag, mae nifer bach iawn ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys ac mewn dau o'r ALI yn BIP Hywel Dda (ALI Ceredigion ac ALI Sir Benfro) sy'n golygu nad yw'r duedd yn ddibynadwy (ffigur 8).

Ffigur 8: Y nifer a fanteisiodd ar brofion sgrinio (%) yn ôl cwintelau amddifadedd yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd y maen nhw'n byw ynddi, 2020/21



Roedd y bwlch annhegwch rhwng yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf a lleiaf ar ei uchaf yn BIP Cwm Taf Morgannwg ar 23.5% ac, er gwaethaf y nifer gymharol uchel sy'n manteisio ar brofion sgrinio yn y cwintel â'r amddifadedd mwyaf, yma y gwelir y niferoedd mwyaf sy'n manteisio ar brofion sgrinio yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf. Mae'r bwlch annhegwch yn negyddol ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys a BIP Hywel Dda ond mae hyn yn debygol o adlewyrchu'r niferoedd bach, sy'n darparu amcangyfrifon ansefydlog.


Oherwydd y niferoedd cymharol fach yn yr awdurdodau lleol, nid yw'n bosibl cyflwyno'r nifer sy'n manteisio ar brofion sgrinio yn ôl amddifadedd ar y lefel

hon. Cyflwynir hyn mewn adroddiadau yn y dyfodol pan fydd y gweithgarwch sgrinio cyffredinol wedi cynyddu.

5.3 Cwmpas yn ôl amddifadedd yn Bron Brawf Cymru

Ar draws Cymru, yn 2020/21 roedd cwmpas y rhaglen sgrinio'r fron yn 57.7%. Roedd y cwmpas ar ei isaf yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf ar 51.4% ac ar ei uchaf yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf ar 63.7%. Fodd bynnag, nid yw'r duedd hon yn cael ei ailadrodd ym mhob ardal Bwrdd Iechyd a gwrthdrowyd y duedd yn BIP Bae Abertawe gyda chwmpas a oedd yn is yn y cwintelau â'r amddifadedd lleiaf a'r cwintelau â'r amddifadedd lleiaf ond un (ffigur 9). Mae'r bwlch annhegwch rhwng yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf a lleiaf ar ei uchaf yn BIP Cwm Taf Morgannwg ar 28.6%. Mae'r bwlch annhegwch yn negyddol yn BIP Bae Abertawe ar -2.2%. Mae cwmpas yn cael ei ddylanwadu gan y nifer sy'n manteisio ar brofion sgrinio a hyd rowndiau, sy'n awgrymu bod cyfranogwyr yn derbyn gwahoddiadau amserol i gael eu sgrinio o fewn yr amserlen briodol. Oherwydd bod hyd rowndiau wedi cynyddu oherwydd yr oedi ac yna ailgyflwyno'r gwasanaethau sgrinio, bydd hyn yn cael effaith ar y ffigurau cwmpas ac felly dylid dehongli'r ffigurau gyda gofal.


Ffigur 9: Cwmpas y gwasanaeth sgrinio'r fron yn ôl cwintelau amddifadedd yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd y maen nhw'n byw ynddi, 2020/21



5.4 Cwmpas yn ôl amddifadedd yn Sgrinio Serfigol Cymru

Ar draws Cymru, yn 2020/21, roedd cwmpas y gwasanaeth sgrinio serfigol ar ei uchaf yn yr â'r ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf ar 75.4% gyda'r cwmpas ar ei isaf yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf ar 63.3%. Y bwlch annhegwch, sy'n cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng y cwmpas yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf o gymharu â'r ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf oedd 12.1%. Roedd y duedd hon yn amlwg ar draws pob ardal Bwrdd Iechyd yng Nghymru. Mae'r bwlch annhegwch sgrinio o ran y cwmpas rhwng yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf a'r ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf ar ei uchaf yn BIP Aneurin Bevan 12.9% ac ar ei isaf yn BIP Hywel Dda ar 8.7% (ffigur 10).


Ffigur 10: Cwmpas (%) y gwasanaeth sgrinio serfigol yn ôl cwintelau amddifadedd yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd y maen nhw'n byw ynddi, 2020/21



Mae yna raddiant cymdeithasol ar gyfer cwmpas y gwasanaethau sgrinio serfigol ar draws y mwyafrif o ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru gyda'r nifer fwyaf yn manteisio ar brofion sgrinio yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf a'r nifer uchaf yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf. Fodd bynnag, ceir amrywiaethau yn y patrwm hwn yn ardaloedd Awdurdodau Lleol Gwynedd a

Cheredigion gydag amrywiaeth yn y cwmpas ar draws ardaloedd o amddifadedd (ffigur 11).

Ffigur 11: Cwmpas (%) y gwasanaeth sgrinio serfigol yn y cwintelau â'r amddifadedd lleiaf a mwyaf yn ôl yr ardal Awdurdod Lleol y maen nhw'n byw ynddi, 2020/21




5.5 Y nifer a fanteisiodd ar brofion sgrinio YAA yn ôl amddifadedd

Ar draws Cymru, yn 2020/21 roedd y nifer a fanteisiodd ar brofion sgrinio Ymlediad Aortig Abdomenol (YAA) ar ei uchaf yn y cwintelau â'r amddifadedd lleiaf a'r amddifadedd lleiaf ond un ar 87.2% a 87.5% yn y drefn honno, gyda'r niferoedd isaf yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf ar 78.5%. Roedd y bwlch annhegwch, sy'n cynrychioli'r gwahaniaeth yn y nifer sy'n manteisio ar brofion sgrinio yn y cymunedau â'r amddifadedd lleiaf o gymharu â'r cymunedau â'r amddifadedd mwyaf yn 8.7%.

Fodd bynnag, nid yw'r duedd ar gyfer dirywiad llinol yn y nifer sy'n manteisio ar brofion sgrinio wrth i amddifadedd gynyddu i'w weld ym mhob ardal Bwrdd Iechyd. Yn BIP Betsi Cadwaladr a BIP Cwm Taf Morgannwg mae'r niferoedd a

fanteisiodd ar brofion YAA ar eu huchaf yn y cwintelau amddifadedd isaf ond un a chanolig o gymharu â'r ardaloedd â'r amddifaedd lleiaf. Yn BIP Caerdydd a'r Fro mae'r nifer a fanteisiodd ar brofion sgrinio ar ei uchaf yn y cwintel â'r amddifadedd mwyaf ond un o gymharu â'r cwintelau isaf ond un a chanolig (ffigur 12). Wrth ddehongli'r niferoedd dylid ystyried y nifer fach o gyfranogwyr a dderbyniodd wahoddiad wrth i'r rhaglen gael ei hailgyflwyno. Bydd niferoedd bach, o ganlyniad i'w rhannu'n ardaloedd daearyddol llai, yn fwy agored i amrywiadau mewn data tueddiadau.

Ffigur 12: Y nifer a fanteisiodd ar (%) brofion sgrinio YAA yn ôl cwintelau amddifadedd yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd y maen nhw'n byw ynddi, 2020/21



Roedd y bwlch annhegwch yn 2020/21 ar ei uchaf yn BIP Caerdydd a'r Fro ar 14.9%. Fodd bynnag, mewn rhai ardaloedd bwrdd iechyd, er enghraifft BIP Hywel Dda mae bwlch annhegwch llai o 4.6% i'w weld.

Oherwydd y niferoedd isel iawn mewn rhai ardaloedd Awdurdodau Lleol, nid yw'n bosibl yn adroddiad 2020/21 i gyflwyno data ar y lefel ddaerayddol hon oherwydd mae amcangyfrifon o fewn cwintelau amddifadedd yn annibynadwy.

Cyflwynir y data hyn mewn adroddiadau yn y dyfodol pan fydd y gweithgarwch sgrinio cyffredinol wedi cynyddu.

6. Y nifer a fanteisiodd ar brofion sgrinio yn ôl rhywedd

Mae Sgrinio Coluddion Cymru yn gwahodd pobl o unrhyw ryw i gymryd rhan mewn prawf sgrinio coluddion bob dwy flynedd. Ar draws Cymru, mae **2% o wahanïaeth yn y nifer a fanteisiodd ar brofion sgrinio'r coluddion rhwng gwrywod a benywod** gyda nifer lai o ddynion yn manteisio ar y profion ar 66.1% o gymharu â 68.1% o fenywod. Mae rhywfaint o amrywiaeth yn ôl bwrdd iechyd ac nid oes unrhyw fwlch annhegwch yn BIP Cwm Taf Morgannwg ar 0.2% o gymharu â bwlch annhegwch ehangach ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys ar 5.5% (tabl 7).


Tabl 7: Y nifer a fanteisiodd (%) ar brofion sgrinio coluddion yn ôl rhywedd, 2020/21

Bwrdd Iechyd	Gwryw	Benyw	Bwlch Annhegwch
BIP Aneurin Bevan	67.1	69.0	1.9
BIP Betsi Cadwaladr	65.3	67.9	2.6
BIP Caerdydd a'r Fro	65.4	68.2	2.8
BIP Cwm Taf Morgannwg	66.6	66.8	0.2
BIP Hywel Dda	66.8	68.9	2.1
BI Addysgu Powys	65.5	71.0	5.5
BIP Bae Abertawe	65.8	66.3	0.5
Cymru Gyfan	66.1	68.1	2.0

Roedd y nifer a fanteisiodd ar brofion sgrinio'r coluddion yn amrywio ar draws ardaloedd Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn 2020/21. Roedd nifer fwy o fenywod wedi manteisio ar brofion sgrinio, o gymharu â dynion, yn y rhan fwyaf o ardaloedd awdurdodau lleol gyda'r bwlch annhegwch mwyaf rhwng dynion a menywod ym Mhowys ar 5.5% yna Wrecsam ar 4.3%. Fodd bynnag, yn ALI Merthyr Tudful gwrthdrowyd y duedd hon gyda nifer fwy o ddynion yn manteisio ar brofion sgrinio (63.2%) o gymharu â menywod (61.9%). Yn ardaloedd ALI Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Castell-nedd Port Talbot, Rhondda

Cynon Taf, Abertawe a Thorfaen, roedd y bwlch rhwng nifer y dynion a menywod a fanteisiodd ar brofion sgrinio yn llai nag 1% (ffigur 13).

Ffigur 13: Y nifer a fanteisiodd (%) ar brofion sgrinio'r coluddion yn ôl rhywedd yn ôl ardal yr Awdurdod Lleol maen nhw'n byw ynddi, 2020/21



7. Y nifer a fanteisiodd ar brofion sgrinio yn ôl oedran


Mae'r tair rhaglen sgrinio am ganser yn gwahodd cyfranogwyr ar sail gyfnodol, felly gellir archwilio'r nifer a fanteisiodd ar brofion sgrinio/cwmpas ar gyfer gwahanol grwpiau oedran. Bydd oedran y cyfranogwyr sy'n cael eu gwahodd hefyd yn dylanwadu ar y math o wahoddiad y mae'r unigolyn wedi'i dderbyn oherwydd bydd y grwpiau oedran ieuengaf yn cael eu gwahodd am y tro cyntaf a bydd y grwpiau oedran hŷn yn cael eu gwahodd ar gyfer apwyntiad adalw.

7.1 Y nifer a fanteisiodd ar brofion sgrinio yn ôl oedran yn Sgrinio Coluddion Cymru

Ar draws Cymru yn 2020/21, **mae'r nifer a fanteisiodd ar brofion sgrinio coluddion ar ei isaf yn y grŵp oedran ieuengaf (60 i 64 oed) sy'n gymwys i gael eu sgrinio** ar 65.8% o gymharu â 69% ar gyfer y rhai 65 i 69 oed a 68.1% ar gyfer y rhai 70 i 74 oed. Gwelir y duedd hon ym mhob

ardal Bwrdd Iechyd ar draws Cymru, ac eithrio Bwrdd Iechyd Addysgu Powys lle mae'r niferoedd yn debyg ar draws y grwpiau oedran a wahoddwyd (ffigur 14).

Ffigur 14: Y nifer a fanteisiodd ar brofion sgrinio'r coluddion yn ôl bwrdd iechyd yn ôl oedran, 2020/21



7.1.1 Y nifer a fanteisiodd ar brofion sgrinio yn ôl y math o wahoddiad


Yn 2020/21, **manteisiodd nifer lai o bobl ar brofion sgrinio'r coluddion ar ôl cael eu gwahodd am y tro cyntaf**, ar 65.9% yng Nghymru, o gymharu â phobl a wahoddwyd a oedd wedi cael prawf sgrinio'r coluddion yn y gorffennol, sef 90.8%. Ar draws ardaloedd Byrddau Iechyd yng Nghymru, roedd y nifer o bobl a fanteisiodd ar brofion sgrinio ar ôl cael eu gwahodd am y tro cyntaf yn amrywio o 63.9% yn BIP Bae Abertawe i 69% ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Ar draws yr holl ardaloedd Bwrdd Iechyd roedd y nifer a fanteisiodd ar brofion sgrinio yn ôl gwahoddiad ar ei uchaf ymhlith y rhai a oedd wedi ymateb i wahoddiad sgrinio blaenorol, sef 90.8%. Ychydig iawn o amrywiaeth

daearyddol a welwyd ar draws y byrddau iechyd, gan amrywio o 90% yn BIP Bae Abertawe i 91.9% ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Roedd y nifer a fanteisiodd ar brofion sgrinio ar ôl derbyn gwahoddiad ar ei isaf ymhlith y rhai nad oeddent wedi ymateb yn flaenorol i'w gwahoddiad, sef 25.5% ar draws Cymru. Ychydig iawn o amrywiaeth daearyddol a welwyd ar lefel Bwrdd Iechyd, gan amrywio o 24.1% yn BIP Cwm Taf Morgannwg i 26.7% yn BIP Caerdydd a'r Fro.

Ffigur 15: Y nifer a fanteisiodd (%) ar brofion sgrinio'r coluddion yn ôl y math o wahoddiad yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maen nhw'n byw ynddi, 2020/21




7.2 Y nifer a fanteisiodd ar brofion sgrinio Bron Brawf Cymru yn ôl oedran

Ar draws Cymru yn 2020/21, **mae'r nifer a fanteisiodd ar brofion sgrinio am ganser y fron ar ei isaf yn y grŵp oedran ieuengaf (50-54 oed)** sy'n gymwys i gael eu sgrinio ar 62.5% o gymharu â'r grwpiau oedran hŷn (65 oed a hŷn) sef 69%. Mae'r duedd o nifer lai yn manteisio ar brofion sgrinio yn y grwpiau oedran iau yn bresennol ar draws pob Bwrdd Iechyd yng Nghymru.


Mae'r duedd hon yn fwyaf amlwg yn BIP Cwm Taf Morgannwg, gyda nifer y rhai 50-54 oed a fanteisiodd ar brofion sgrinio yn 59.8% o gymharu â 65.7% yn y grŵp oedran nesaf (ffigur 16). Nid oes data ar gael ar gyfer Bwrdd Iechyd Addysgu Powys oherwydd dim ond 102 o fenywod a wahoddwyd am brawf sgrinio yn ystod 2020/21 ac mae'r niferoedd bach yn ei gwneud yn anodd dadansoddi'r tueddiadau sylfaenol.

Ffigur 16: Y nifer a fanteisiodd (%) ar brofion sgrinio am ganser y fron yn ôl grŵp oedran yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maen nhw'n byw ynddi, 2020/21



Bydd y grŵp oedran iau yn cynnwys y rhai a wahoddwyd am y tro cyntaf. Nodir y gwahaniaeth yn nifer y merched a wahoddwyd am y tro cyntaf a menywod a oedd yn cael eu hadalw am brofion sgrinio a oedd wedi manteisio ar gynnig sgrinio blaenorol. Yn ystod 2020/21, **roadd nifer y menywod a dderbyniodd eu gwahoddiad cyntaf a fanteisiodd ar brofion sgrinio yn 46% o gymharu ag 80% ar gyfer menywod a oedd yn cael eu hadalw** ac a oedd wedi manteisio ar wahoddiad i gael eu sgrinio yn y gorffennol. Nodwyd y duedd hon ar draws pob ardal bwrdd iechyd (ffigur 17).

Ffigur 17: Y nifer a fanteisiodd (%) ar brofion sgrinio am ganser y fron yn ôl y math o wahoddiad fesul ardal y Bwrdd Iechyd y maen nhw'n byw ynddi, 2020/21




Dylid nodi, o fis Ionawr 2021, y bu newid yn y broses o wahodd menywod am y tro cyntaf, gan symud i gynllun peilot o apwyntiadau agored yn hytrach nac apwyntiadau ar amser penodedig sy'n golygu na ellir cymharu'r data hyn â data blynyddoedd blaenorol. Mae effaith y gwahoddiadau agored ar nifer y menywod sy'n manteisio ar brofion sgrinio yn cael ei harchwilio fel rhan o werthusiad o'r cynllun peilot.

7.3 Cwmpas Sgrinio Serfigol Cymru yn ôl oedran

Ar draws Cymru yn 2020/21, **mae cwmpas y profion sgrinio serfigol ar ei isaf yn y grŵp oedran ieuengaf (25-29 oed)** sy'n gymwys i gael eu sgrinio. Mae cwmpas y cyfranogwyr cymwys 25-29 oed yn 63.4% o gymharu â 77.2% ymhlith cyfranogwyr 50-54 oed (ffigur 18).

Ffigur 18: Cwmpas sgrinio serfigol yn ôl grŵp oedran yng Nghymru, 2020/21



Mae'r duedd o nifer is yn manteisio ar brofion sgrinio yn y grwpiau oedran iau yn bresennol ar draws pob Bwrdd Iechyd yng Nghymru. Mae'r duedd hon yn fwyaf amlwg yn BIP Caerdydd a'r Fro gyda bwlch o 7.3% yn y cwmpas rhwng y rhai 25-29 oed ar 58.8% o gymharu â 66.1% yn y grŵp oedran nesaf (ffigur 19).

8. Trafodaeth

Mae'r adroddiad cyntaf hwn gan yr Is-adran Sgrinio sy'n canolbwyntio ar annhegwch o ran cyfranogi mewn rhaglenni sgrinio wedi dangos nad yw pobl yn manteisio i'r un graddau ar y cynnig i gael eu sgrinio ar draws y rhaglenni sgrinio oedolion yng Nghymru. Mae pobl sy'n byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru yn manteisio llai ar brofion sgrinio ar gyfer pob un o'r rhaglenni sgrinio oedolion yng Nghymru o gymharu â phobl sy'n byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf. Mae graddiant cymdeithasol, gydag amddifadedd uwch yn arwain at lai o gyfranogiad mewn rhaglenni sgrinio. Oherwydd bod gan bobl o gymunedau â mwy o amddifadedd gyfraddau uwch o farwolaethau o ganlyniad i ganser y coluddion, canser y fron

a chanser serfigol¹, y bobl sy'n wynebu'r risg uchaf sy'n manteisio leiaf ar brofion sgrinio ataliol, a all achub bywydau a lleihau cymhlethdodau.

Mae nifer lai o bobl o'r carfannau oedran ieuengaf yn manteisio ar brofion sgrinio ar gyfer canser y coluddion, canser y fron a chanser serfigol. Y gwahaniaeth yn nifer y bobl yn y carfannau oedran ieuengaf sy'n manteisio ar brofion sgrinio am ganser y fron a chanser serfigol o gymharu â'r nifer cyffredinol sy'n manteisio ar brofion sgrinio yw 6.1% a 4.6% yn y drefn honno. Mae'r gwahaniaeth ar gyfer sgrinio'r coluddion yn llai, sef 1.8%. Yn y rhaglen sgrinio'r coluddion ceir gwahaniaeth bach yn y nifer sy'n manteisio ar brofion sgrinio yn ôl rhywedd, gyda dynion yn llai tebygol o fanteisio ar eu cynnig o gymharu â menywod.

Mae'r data a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn cael ei gasglu'n rheolaidd fel rhan o'r broses o gyflawni'r rhaglen. Felly, mae wedi'i gyfyngu i'r ffactorau sy'n cael eu cofnodi yn awr mewn systemau gwybodaeth presennol. Er mwyn gwneud yn siŵr bod ein camau gweithredu i fynd i'r afael ag annhegwch sgrinio yn seiliedig ar ddata, mae angen dealltwriaeth bellach arnom o'r nifer sy'n manteisio ar brofion sgrinio mewn cymunedau lle mae gwaith ymchwil ac ymgysylltu yn dweud wrthym y gallai'r niferoedd sy'n manteisio ar brofion sgrinio fod yn isel, er enghraifft mewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig a'r gymuned drawsryweddol. Bydd datblygu cynhwysiant y data hwn yn rhan o'r Strategaeth Annhegwch Sgrinio.

Mae'r lefel is o weithgarwch sgrinio yn 2020/21, o gymharu â'r lefelau cyn y pandemig yn golygu bod angen gofal wrth gyflwyno data ar gyfer ardaloedd daearyddol llai. Mae data ar lefel clwstwr a phraxis meddygon teulu yn bwysig er mwyn i gydweithwyr ym maes Gofal Sylfaenol allu canolbwyntio camau gweithredu a gweithgareddau. Wrth i weithgarwch sgrinio gynyddu yn y dyfodol, bydd adroddiadau yn ceisio darparu data mwy gronynnol er mwyn bod yn sail i camau gweithredu wedi'u targedu. Yn ogystal â chyflwyno adroddiadau blynyddol, mae'r Is-adran Sgrinio yn awyddus i ddarparu gwaith

monitro amser real o weithgarwch sgrinio drwy ddangosfwrdd data sydd ar gael i gydweithwyr GIG Cymru.

Mae canfyddiadau'r adroddiad yn cadarnhau tystiolaeth o annhegwch yn y nifer sy'n manteisio ar brofion sgrinio mewn rhaglenni sgrinio eraill yn y DU ac mae'n cefnogi gwybodaeth a gasglwyd fel rhan o ymgysylltiad â gwasanaethau sgrinio. Mae hyn yn dangos bod angen yn bodoli o hyd i ddeall y rhwystrau sy'n atal pobl rhag cael eu sgrinio, er enghraifft pobl o'r cymunedau lle ceir mwy o amddifadedd yng Nghymru. Mae'r rhwystrau hyn yn gymhleth, ac nid ydynt wedi'u cyfyngu i fynediad at raglenni am eu bod yn bodoli ar draws rhaglenni sgrinio sy'n cael eu cyflawni mewn canolfannau sgrinio, gofal sylfaenol a sgrinio yn y cartref. Mae'r Strategaeth Annhegwch Sgrinio wedi pwysleisio ymrwymïadau i fynd i'r afael â rhwystrau posibl gan gynnwys sicrhau llythrennedd iechyd priodol er mwyn cyfathrebu â chyfranogwyr a chyfleu negeseuon clir am rôl a diben sgrinio.

O fewn yr is-adran sgrinio, bydd y data a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn sail i'n gwaith cynllunio er mwyn cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar brofion sgrinio a hefyd gallu gwerthuso newidiadau i wasanaethau o fewn rhaglenni i sicrhau nad yw unrhyw newidiadau o ran darparu'r gwasanaethau yn gwaethygu annhegwch presennol. Drwy gydweithio â chydweithwyr yn y Byrddau Iechyd, rydym hefyd yn awyddus i'r data hwn lywio dulliau gweithredu wedi'u targedu a'u harwain gan y gymuned, ac wedi'u cydlynu ar draws y meysydd Gofal Sylfaenol ac Iechyd y Cyhoedd.

Mae'r adroddiad hwn wedi canolbwyntio ar y nifer sy'n manteisio ar brofion sgrinio, sef dechrau'r daith sgrinio. Nod cyffredinol sgrinio yw gwella canlyniadau iechyd i bobl Cymru drwy leihau afiachedd a marwolaethau. Wrth i ni weithio i wella annhegwch iechyd ar draws y llwybr sgrinio byddwn hefyd yn datblygu'r ffordd y gallwn ymgorffori data ar wahanol gamau o'r llwybr clinigol, gan gynnwys mynediad at brofion diagnostig a thriniaethau, a'u hargaeledd, er mwyn llywio'r ymateb sydd ei angen i leihau annhegwch iechyd.

Diffiniadau

Mae'r adran hon yn darparu manylion pellach am y cyfrifiadau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn.

Cymwys

Yn byw yng Nghymru ac wedi cofrestru gyda meddyg teulu ac y diffiniwyd eu bod o fewn carfan briodol o'r boblogaeth a wahoddwyd o fewn y cyfnod amser.

Y nifer a fanteisiodd ar brofion sgrinio

Cafodd cyfranogwyr eu cyfrif fel eu bod wedi ymateb i'w gwahoddiad os cawsant eu gwahodd yn ystod y cyfnod o fis Ebrill i fis Mawrth ac os oeddent wedi mynychu o fewn chwe mis i dderbyn eu gwahoddiad.

Cwmpas

Y gyfran o'r boblogaeth gymwys a wahoddwyd ac a gafodd ei sgrinio o fewn y cyfnod amser priodol.

Amddifadedd

Cafodd y cwintelau amddifadedd eu haseinio gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2014, wedi'u mesur ar lefel ardal gynnyrch ehangach haen is (LSOA). Caiff yr LSOAs eu sgorio yn gwintelau ar lefel Cymru gyfan er mwyn gallu eu cymharu rhwng byrddau iechyd. Mae hyn yn golygu na fydd cyfran gyfartal o bobl ym mhob cwintel pan fyddwch yn edrych ar bob bwrdd iechyd e.e. yn Sir Fynwy, mae 40% o'r boblogaeth yn byw yn y cwintel â'r amddifadedd lleiaf yng Nghymru ond nid oes unrhyw ardaloedd eraill sy'n cael eu hystyried fel y cwintel â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru.

Bwrdd iechyd

Y bwrdd iechyd lle maen nhw'n byw.